*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 2916 (Cy.213)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *18 Hydref 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Hydref 2005* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 138(7) a 144 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) a pharagraff 5 o Atodlen 8 iddi ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 19, 20, 210(7) a 214 o Ddeddf Addysg 2002(**3**) mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2005, ac maent yn dod i rym ar 31 Hydref 2005.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001(**4**);

ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(**5**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio'r Prif Reoliadau

**2.** Diwygir y Prif Reoliadau fel a ganlyn.

**3.** Yn rheoliad 3(1)—

(a) o flaen y diffiniad o "tir a ariennir yn gyhoeddus" mewnosoder y diffiniad canlynol—

(**1**) 1998 p.31. I gael y diffiniad o "regulations", *gweler* adran 142(1).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.
(**3**) 2002 p.32. I gael y diffiniad o "regulations", *gweler* adran 212(1).
(**4**) O.S. 2001/2678 (Cy.219).
(**5**) O.S. 2005/2914 (Cy.211).

"ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005;";

(b) yn lle'r diffiniad o "Atodlen 12 addasedig i'r Ddeddf" rhodder yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor y diffiniad canlynol—

"ystyr "y Rheoliadau 2005 addasedig" ("*the modified 2005 Regulations*") yw Rheoliadau 2005 fel y maent yn effeithiol gydag addasiadau yn rhinwedd rheoliad 12 o'r Rheoliadau hyn ac Atodlen 3 iddynt;".

**4.** Yn rheoliad 10(1), rhodder y geiriau "Rheoliadau 2005 addasedig" yn lle'r geiriau "Atodlen 12 addasedig i'r Ddeddf".

**5.** Yn lle rheoliad 11 rhodder y canlynol—

"**11.** Rhaid i'r offeryn llywodraethu newydd gael ei wneud yn unol â gofynion Rhan 5 o'r Rheoliadau 2005 addasedig a chydymffurfio â'r gofynion hynny.".

**6.** Yn lle rheoliad 12 rhodder y canlynol—

"**12.** Mae Rheoliadau 2005 yn gymwys i'r offeryn llywodraethu newydd y cyfeirir ato yn rheoliad 11 gyda'r addasiadau a nodir yn Atodlen 3.".

**7.** Yn rheoliad 13(1), rhodder y geiriau "Rheoliadau 2005 addasedig" yn lle'r geiriau "Atodlen 12 addasedig i'r Ddeddf".

**8.** Yn rheoliad 15(4), rhodder y geiriau "noddwyr-lywodraethwyr" yn lle'r geiriau "llywodraethwyr cyfetholedig ychwanegol".

**9.** Ar ôl rheoliad 15, mewnosoder y canlynol—

"**15A.** At ddibenion rheoliadau 14 a 15, pan nad yw'r awdurdod addysg lleol wedi gwneud offeryn llywodraethu ar gyfer y corff llywodraethu cyfredol yn unol â Rheoliadau 2005, mae'r categorïau cyfatebol o lywodraethwr fel a ganlyn—

| *Categori llywodraethwr cyfredol* | *Categori llywodraethwr o dan Reoliadau 2005* |
|---|---|
| Llywodraethwr cyfetholedig | Llywodraethwr cymunedol |
| Llywodraethwr cynrychioliadol | Llywodraethwr cynrychioliadol |
| Llywodraethwr sefydledig (gan gynnwys llywodraethwr sefydledig *ex officio*) | Llywodraethwr sefydledig |
| Llywodraethwr AALl | Llywodraethwr AALl |
| Rhiant-lywodraethwr | Rhiant-lywodraethwr |
| Llywodraethwr partneriaeth | Llywodraethwr partneriaeth |
| Staff-lywodraethwr | Staff-lywodraethwr |
| Athro-lywodraethwr | Athro-lywodraethwr |
| Pennaeth (llywodraethwr *ex officio*) | Pennaeth (llywodraethwr *ex officio*)" |

**10.** Yn lle Atodlen 3 rhodder yr Atodlen 3 ddiwygiedig a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

18 Hydref 2005

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Rheoliad 10

## "ATODLEN 3

### Darpariaethau Rheoliadau 2005 a addaswyd o ran yr Offerynnau Llywodraethu a grybwyllir yn Rheoliadau 10, 11 a 12 o'r Prif Reoliadau

Mae'r rheoliadau yn Rheoliadau 2005 a bennir yng ngholofn chwith y tabl isod yn effeithiol o ran yr offerynnau llywodraethu a grybwyllir yn rheoliadau 10, 11 a 12 gyda'r addasiadau a bennir yng ngholofn dde y tabl.

| *Y ddarpariaeth* | *Yr addasiad* |
|---|---|
| Rheoliad 33(1)(b) | Mae'r is-baragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau "neu y bydd yn perthyn iddo" wedi'u mewnosod ar ôl "y perthyn yr ysgol iddo". |
| Rheoliad 33(1) | Mae'r paragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r canlynol wedi'i fewnosod ar ôl rheoliad 33(1)(e)—<br>"(ee) pan fydd yr ysgol yn dod yn ysgol sefydledig neu'n ysgol arbennig sefydledig, yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, yn ddarostyngedig i reoliad 14 o Reoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001, enw unrhyw gorff sefydledig neu berson a chanddo hawl i benodi llywodraethwyr sefydledig ac, os oes mwy nag un person o'r fath a chanddo hawl i benodi, y sail y gwneir penodiadau o'r fath arni o ran y newid categori ac ar ôl hynny pan fo swyddi gwag i'w llenwi;". |
| Rheoliad 33(2) | Mae'r paragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau "y cynigir y dylai'r ysgol berthyn iddo" wedi'u rhoi yn lle'r geiriau "y perthyn yr ysgol iddo". |
| Rheoliad 34 le— | Mae'r rheoliad hwnnw'n effeithiol fel petai'r rheoliad hwnnw wedi'i hepgor a'r canlynol wedi'i roi yn ei le—<br>"**34.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â gwneud offeryn llywodraethu ar gyfer ysgol sy'n newid ei chategori yn unol ag Atodlen 8 i Ddeddf 1998.<br>(2) Rhaid i'r corff llywodraethu baratoi drafft o'r offeryn llywodraethu newydd a'i gyflwyno i'r awdurdod addysg lleol.<br>(3) Pan fo gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig neu y cynigir y dylai fod gan |

| *Y ddarpariaeth* | *Yr addasiad* |
|---|---|
| | yr ysgol lywodraethwyr sefydledig, rhaid i'r corff llywodraethu beidio â chyflwyno'r drafft i'r awdurdod addysg lleol onid yw wedi'i gymeradwyo gan y canlynol—<br>(a) y llywodraethwyr sefydledig sy'n bodoli eisoes;<br>(b) os nad oes unrhyw lywodraethwyr sefydledig yn bodoli eisoes, y personau y cynigir y dylai fod hawl ganddynt i benodi llywodraethwyr sefydledig;<br>(c) unrhyw ymddiriedolwyr unrhyw ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol;<br>(ch) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol; a<br>(d) yn achos unrhyw ysgol arall a ddynodwyd o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998 yn ysgol grefyddol ei chymeriad, y corff crefyddol priodol.<br>(4) Ar ôl cael y drafft rhaid i'r awdurdod addysg lleol ystyried a yw'n cydymffurfio â phob darpariaeth statudol sy'n gymwys, ac—<br>(a) os yw'n fodlon bod y drafft yn cydymffurfio felly, neu<br>(b) os oes cytundeb rhyngddo, y corff llywodraethu ac (os oes gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig neu os cynigir y dylai fod gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig) y personau a grybwyllwyd ym mharagraff (3) y dylid diwygio'r drafft i unrhyw raddau a bod y drafft diwygiedig yn cydymffurfio â phob un o'r darpariaethau statudol sy'n gymwys,<br>rhaid i'r offeryn llywodraethu gael ei wneud ganddo ar ffurf y drafft neu (yn ôl y digwydd) ar ffurf y drafft diwygiedig.<br>(5) Os, yn achos ysgol y mae ganddi lywodraethwyr sefydledig neu y |

| *Y ddarpariaeth* | *Yr addasiad* |
|---|---|
| | cynigir y dylai fod ganddi lywodraethwyr sefydledig, y bydd y personau a restrir ym mharagraff (3) yn anghytuno ar unrhyw adeg â'r drafft, caiff unrhyw un o'r personau hynny ei gyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhaid i'r Cynulliad roi unrhyw gyfarwyddyd y gwêl yn dda gan roi sylw, yn benodol, at y categori o ysgol y cynigir y dylai'r ysgol berthyn iddo.<br>(6) Os yw'r naill na'r llall o is-baragraffau (a) a (b) o baragraff (4) yn gymwys yn achos ysgol nad oes ganddi lywodraethwyr sefydledig neu os na chynigir y dylai fod ganddi lywodraethwyr sefydledig, rhaid i'r awdurdod addysg lleol—<br>(a) hysbysu'r corff llywodraethu o'r rhesymau pam nad yw'n fodlon ar yr offeryn llywodraethu drafft, a<br>(b) rhoi cyfle rhesymol i'r corff llywodraethu ddod i gytundeb gydag ef ynglŷn â diwygio'r drafft;<br>a rhaid i'r offeryn llywodraethu gael ei wneud ganddo naill ai ar ffurf drafft diwygiedig y cytunwyd rhyngddo a'r corff llywodraethu neu (os nad oes cytundeb o'r fath) ar unrhyw ffurf y gwêl yn dda, gan roi sylw, yn benodol, i'r categori o ysgol y cynigir y dylai'r ysgol berthyn iddo.<br>(7) Wrth gymryd unrhyw benderfyniad ynglŷn ag enw'r ysgol, rhaid i'r corff llywodraethu, yr awdurdod addysg lleol ac (os oes gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig neu os cynigir y dylai gael llywodraethwyr sefydledig) y personau a grybwyllwyd ym mharagraff (3), roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd o bryd i'w gilydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.”. |
| Rheoliad 35(4) | Mae'r paragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau “rheoliad 34(3) fel y'i haddaswyd” wedi'u rhoi yn lle'r geiriau “rheoliad 34(2)”. |
| Rheoliad 35(5)(b) | Mae'r is-baragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau “rheoliad 34(3) fel y'i haddaswyd” wedi'u rhoi yn lle'r geiriau “rheoliad 34(2)”. |
| Rheoliad 35(6) | Mae'r is-baragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau “rheoliad 34(3) fel y'i haddaswyd” |

| *Y ddarpariaeth* | *Yr addasiad* |
|---|---|
| | wedi'u rhoi yn lle'r geiriau “rheoliad 34(2)” ac fel petai'r geiriau “y cynigir y dylai'r ysgol berthyn iddo” wedi'u rhoi yn lle'r geiriau “y perthyn yr ysgol iddo”. |
| Rheoliad 35(7) | Mae'r paragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau “y cynigir y dylai'r ysgol berthyn iddo” wedi'u rhoi yn lle'r geiriau “y perthyn yr ysgol iddo”. |
| Rheoliad 37 | Mae rheoliad 37 wedi'i hepgor.” |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001 (“y Prif Reoliadau”). Mae'r Prif Reoliadau'n gwneud darpariaeth i ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig ddod yn gategori ysgol arall o fewn y categorïau hynny, i ysgol arbennig gymunedol ddod yn ysgol arbennig sefydledig ac i ysgol arbennig sefydledig ddod yn ysgol arbennig gymunedol. Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu hefyd Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (“Rheoliadau 2005”).

Mae'r diwygiadau a'r addasiadau hyn yn ganlyniad i ddiddymu Atodlen 12 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gan Ddeddf Addysg 2002 a gwneud Rheoliadau 2005.

Mae Rheoliadau 3 i 9 yn gwneud mân ddiwygiadau i'r addasiadau yn y Prif Reoliadau sy'n ymwneud â chyfansoddiad cyrff llywodraethu ysgolion sy'n newid categori.

Mae Rheoliad 10 a'r Atodlen yn nodi'r darpariaethau addasedig yn Rheoliadau 2005 sy'n ymwneud â gwneud offerynnau llywodraethu ysgolion sy'n newid categori a chynnwys yr offerynnau llywodraethu hynny. Mae'r Atodlen yn rhoi Atodlen 3 newydd i'r Prif Reoliadau yn lle'r hen un.